YSTADEGAU

# Gwelyau y GIG: Ebrill 2018 i Fawrth 2019

Nifer gwelyau'r GIG ar lefel Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer Ebrill 2018 i Fawrth 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 Awst 2019

Diweddarwyd ddiwethaf: 29 Awst 2019

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Diffiniadau

Prif bwyntiau

Nifer y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd a chanran y defnydd ohonynt

Crynodeb yn ôl bwrdd iechyd lleol

Crynodeb yn ôl arbenigedd triniaeth

Gwybodaeth allweddol am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

# Diffiniadau

Y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd: Nifer y gwelyau wedi'u staffio a'r gwelyau dros dro sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn cynnwys y rhai mewn unedau gofal arbennig i fabanod neu unedau therapi dwys.

Defnydd o welyau'n ddyddiol ar gyfartaledd: Nifer y gwelyau a ddefnyddir yn ddyddiol ar gyfartaledd, gan gleifion sydd dan ofal ymgynghorydd mewn arbenigedd triniaeth penodol. Mae'r nifer yn cynnwys cleifion mewnol yn unig, nid achosion dydd.

Canran y defnydd: Cyfran y gwelyau sydd ar gael sy'n cael eu defnyddio gan gleifion sydd dan ofal ymgynghorydd mewn arbenigedd triniaeth penodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


Ceir diffiniadau llawn yn **Gwelyau y GIG: adroddiad ansawdd**.

# Prif bwyntiau

- Mae'r duedd hirdymor yn dangos, er bod nifer cyfartalog y gwelyau wedi gostwng, bod canran y defnydd wedi cynyddu.
- Parhaodd nifer y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd i ostwng eleni ac mae wedi lleihau bron i draean ers 1996-97.
- Mae canran y defnydd o'r gwelyau sydd ar gael yn y GIG wedi cynyddu yn gyffredinol ers 1996-97. Fodd bynnag, bu gostyngiad bach dros y 2 flynedd flaenorol.
- O'r wyth bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, roedd gostyngiad wedi bod yn y gwelyau oedd ar gael gan chwech ohonynt, a chynnydd wedi bod yng nghanran y defnydd gan dri ohonynt.
- Seiciatreg yr henoed oedd yr arbenigedd triniaeth lle gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y gwelyau oedd ar gael, o'i gymharu â'r llynedd. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn meddygaeth gyffredinol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nifer y gwelyau sydd ar gael a chanran y defnydd ohonynt, 1996-97 i 2018-19




Data cryno ar welyau'r GIG yn ôl blwyddyn ar StatsCymru

# Nifer y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd a chanran y defnydd ohonynt

## Y data diweddaraf

- Yn 2018-19, roedd 10,564 o welyau ar gael yn y GIG yn ddyddiol, y nifer isaf ar gofnod.
- Yn 2018-19, roedd canran defnydd gwelyau'r GIG yn 86.8%.

## Newid ers y llynedd

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu gostyngiad o 149 (1.4%) yn y gwelyau sydd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gael ar gyfartaledd.
- Mae canran y defnydd wedi gostwng 0.2 pwynt canran ers 2017-18.

## Newid mewn deng mlynedd

- Mae nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfartaledd wedi gostwng 2,552 (neu 19.5 %) ers 2008-09. Mae'r gostyngiad yn nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfartaledd rhwng y blynyddoedd wedi arafu o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl. Bu gostyngiad o 241 gwely (1.8%) rhwng 2007-08 a 2008-09, o'i gymharu â gostyngiad o 149 gwely eleni (1.4%).
- Mae canran y defnydd wedi cynyddu 4.3 pwynt canran ers 2008-09. Yn nodweddiadol, mae canran y defnydd yn weddol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, gyda chynnydd bach yn y ganran.

## Newid ers 1996-97

- Mae nifer cyfartalog y gwelyau sydd ar gael wedi gostwng bob blwyddyn ers y tro cyntaf i'r datganiad QueSt 1 fod ar gael ar ei ffurf bresennol, sef 1996-97. Yn ystod y cyfnod hwn bu gostyngiad cyffredinol o 5,019 (32.2%) o welyau, o 15,582 i 10,564.
- Mae canran y defnydd wedi codi 8.5 pwynt canran ers 1996-97. Bu tuedd gyson ar i fyny yng nghanran y defnydd ers i'r data ddechrau cael eu casglu ar sail gymharol.

## Y cyd-destun polisi

- Y strategaeth ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru yn y tymor hir yw darparu gofal yn nes at gartrefi pobl drwy gynyddu gwasanaethau yn y gymuned a gwasanaethau meddygon teulu. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad '**Cymru Iachach: y cynllun tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**'.
- Mae datblygiadau ym maes technoleg gofal iechyd hefyd yn golygu bod pobl yn treulio llai o amser yn yr ysbyty a bod mwy o driniaethau dydd yn cael eu cynnal. Mae data ynghylch hyd arhosiad ar gyfartaledd ar gael yn **PEDW ar-**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lein.

# Crynodeb yn ôl bwrdd iechyd lleol

## Y data diweddaraf

- Yn 2018-19, gan fyrddau Betsi Cadwaladr ac Abertawe Bro Morgannwg yr oedd y nifer mwyaf o welyau dyddiol ar gyfartaledd (2,221 a 2,150 yn y drefn honno).
- Gan Felindre a Phowys yr oedd y lleiaf o welyau ar gael (40 a 214 yn y drefn honno).
- Gan Hywel Dda yr oedd y ganran uchaf o welyau ar gael, sef 88.3 %, a chan Felindre yr oedd y ganran leiaf, sef 69.9 %.

## Newid ers y llynedd

- Rhwng 2017-18 a 2018-19 cafwyd gostyngiad yn nifer y gwelyau dyddiol oedd ar gael ar gyfartaledd mewn chwech o'r wyth bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru.
- Betsi Cadwaladr oedd yr unig fwrdd iechyd a welodd gynnydd mewn gwelyau yn ystod y cyfnod hwn, ac arhosodd Felindre yr un fath.
- Cynyddodd canran y defnydd mewn tri o'r byrddau iechyd lleol/ ymddiriedolaethau, sef Cwm Taf, Hywel Dda a Phowys; a chafwyd gostyngiadau yn y byrddau/ymddiriedolaethau eraill.
- Cwm Taf a welodd y cynnydd uchaf yng nghanran y defnydd (2.5 pwynt canran), ac yn Felindre y bu'r gostyngiad mwyaf (6.8 pwynt canran) yng nghanran y defnydd.

## Newid ers 2009-10

Sefydlwyd y byrddau iechyd a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn 2009-10. Ers hynny, mae nifer cyfartalog y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol wedi gostwng ym mhob un.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Roedd y gostyngiad mwyaf ym mwrdd Betsi Cadwaladr, sef 523 o welyau (19.1 %).
- Roedd y gostyngiad lleiaf yn Felindre, sef 11 o welyau (22.2 %) (ond mae yn llawer llai na'r saith bwrdd iechyd).
- Roedd cynnydd yng nghanran y defnydd ar gyfer chwe bwrdd iechyd. Betsi Cadwaladr oedd a'r cynnydd uchaf, yn codi 12.2 pwynt canran o 74.3 % i 86.5 %.
- O'r ddau fwrdd iechyd a welodd ostyngiad yn y defnydd, roedd y gostyngiad mwyaf yn Felindre, sef 8.3 pwynt canran, o 78.3 % i 69.9 %.

## Tabl 1: Newidiadau canrannol yng ngwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd yn ôl bwrdd iechyd lleol

| | Gwelyau ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd | Newid canrannol yng ngwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd ers | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | 2018-19 | 2009-10 | 2017-18 |
| Betsi Cadwaladr | 2,221 | -19.1 | 0.7 |
| Powys | 214 | -22.9 | -0.5 |
| Hywel Dda | 1,208 | -6.9 | -1.7 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 2,150 | -18.2 | -2.2 |
| Cwm Taf | 1,211 | -24.4 | -4.2 |
| Aneurin Bevan | 1,773 | -9.1 | -1.3 |
| Caerdydd a'r Fro | 1,747 | -22.6 | -1.0 |
| Felindre | 40 | -22.2 | 0.0 |
| Cymru | 10,564 | -17.5 | -1.4 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Tabl 2: Newidiadau pwynt canran yng nghanran y defnydd yn ôl bwrdd iechyd lleol**

| Bwrdd Iechyd Lleol | Canran y defnydd (%)[1] | Newid pwynt canrannol yng nghanran y defnydd ers | |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2009-10 | 2017-18 |
| Betsi Cadwaladr | 86.5 | 12.2 | -1.1 |
| Powys | 82.5 | -3.1 | 0.4 |
| Hywel Dda | 88.3 | 2.9 | 1.3 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 87.2 | 2.1 | -1.0 |
| Cwm Taf | 85.4 | 9.0 | 2.5 |
| Aneurin Bevan | 86.5 | 2.7 | -0.7 |
| Caerdydd a'r Fro | 87.9 | 3.1 | -0.5 |
| Felindre | 69.9 | -8.3 | -6.8 |
| Cymru | 86.8 | 5.4 | -0.2 |

[1] Cyfran y gwelyau a ddefnyddir yn ddyddiol ar gyfartaledd

**Gwelyau'r GIG yn ôl sefydliad a safle ar StatsCymru**

# Crynodeb yn ôl arbenigedd triniaeth

Noder: mae’n bosibl mai’r rheswm dros rai o’r newidiadau a ddangosir isod yw bod arbenigeddau triniaeth wedi’u hailddosbarthu. Mae’n bosibl hefyd fod newidiadau i’r manylion codio yn effeithio ar y niferoedd a gofnodir.

Mae’r sylwebaeth a ganlyn yn canolbwyntio ar y deg arbenigedd triniaeth eleni. Ceir data am yr holl arbenigeddau ar gael ar StatsCymru.

## Y data diweddaraf

- Y pum arbenigedd triniaeth uchaf yn 2018-19 oedd yn gyfrifol am 55.1% o’r gwelyau oedd ar gael yn ddyddiol yng Nghymru ar gyfartaledd.
- Yr arbenigedd triniaeth â’r nifer uchaf o welyau ar gael yn ddyddiol ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfartaledd oedd meddygaeth gyffredinol, gyda 2,163 o welyau.
- O'r pum arbenigedd uchaf, 'meddygaeth geriatrig' oedd â'r canran defnydd uchaf yn 2018-19 (96.3 %). 'trawma ac orthopedeg' oedd â'r canran defnydd isaf eleni (83.5 %).

## Newid ers y llynedd

- Rhwng 2017-18 a 2018-19, yn y maes arbenigedd seiciatreg yr henoed y cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y gwelyau oedd ar gael yn y GIG yn ôl arbenigedd (51 yn llai o welyau, neu 8.5 %).
- Mewn meddygaeth gyffredinol yr oedd y cynnydd mwyaf yn y gwelyau oedd ar gael (45 yn fwy o welyau, neu 2.1 %). Yn yr arbenigedd hwn, mae canran y defnydd wedi lleihau ychydig (llai nag un pwynt canran) o'i gymharu â 2017-18.
- Rhwng 2017-18 a 2018-19, ym maes damweiniau ac achosion brys y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y defnydd, sef gostyngiad o 13.7 pwynt canran o 66.9 % i 53.2 %.
- Mewn opthalmoleg yr oedd y cynnydd uchaf yng nghanran y defnydd, sef 10.4 pwynt canran, o 75.7 % i 86.0 %.

## Newid ers 1996-97

- Mewn meddygaeth geriatrig (58.4 %) a seiciatreg yr henoed (59.7 %) y gwelwyd y cwymp mwyaf yn nifer y gwelyau oedd ar gael. Mae'r ffigurau wedi gostwng fwy na'u hanner ers 1996-97.
- Mewn gwasanaethau adsefydlu y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y gwelyau oedd ar gael, sef bron mwy na dwywaith a hanner yn fwy o welyau (241.5 %) yn fwy o welyau nag yn 1996-97.
- O blith yr arbenigeddau mwyaf eleni, gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghanran y defnydd mewn meddygaeth geriatrig. Cynyddodd 14.3 pwynt canran i 96.3 % eleni.
- Ni chafwyd unrhyw ostyngiad yng nghanran y defnydd ymhlith yr arbenigeddau mwyaf eleni.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Tabl 3: Newidiadau canrannol yng ngwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd yn ôl arbenigedd triniaeth

| Arbenigedd[1] | Gwelyau ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd | Newid canrannol yng ngwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd ers | |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 1996-97 | 2017-18 |
| Meddygaeth Gyffredinol | 2,163 | -3.6 | 2.1 |
| Meddygaeth Geriatrig | 1,185 | -24.1 | -1.6 |
| Trawma ac Orthopedeg | 889 | -15.2 | -3.4 |
| Llawfeddygaeth Gyffredinol | 866 | -19.5 | -1.8 |
| Afiechyd Meddwl Oedolion | 722 | -16.8 | -0.6 |
| Pob arbenigedd | 10,564 | -17.5 | -1.4 |

[1] Dim ond y 5 arbenigedd uchaf ar sail y gwelyau oedd ar gael yn ddyddiol yn 2017-18.

## Tabl 4: Newidiadau pwynt canran yng nghanran y defnydd yn ôl arbenigedd triniaeth

| Arbenigedd[1] | Canran y defnydd (%)[2] | Newid pwynt canrannol yng nghanran y defnydd ers | |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 1996-97 | 2017-18 |
| Meddygaeth Gyffredinol | 94.9 | 3.9 | -0.7 |
| Meddygaeth Geriatrig | 96.3 | 10.0 | 0.0 |
| Trawma ac Orthopedeg | 83.5 | 1.3 | 0.7 |
| Llawfeddygaeth Gyffredinol | 85.3 | 4.4 | 1.5 |
| Afiechyd Meddwl Oedolion | 93.1 | 9.5 | 0.4 |
| Pob arbenigedd | 86.8 | 5.4 | -0.2 |

[1] Dim ond y 5 arbenigedd uchaf ar sail y gwelyau oedd ar gael yn ddyddiol yn 2017-18 a ddangosir.

[2] Cyfran y gwelyau a ddefnyddir yn ddyddiol ar gyfartaledd o gymharu â'r gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol ar gyfartaledd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gwelyau'r GIG yn ôl arbenigedd ar StatsCymru

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd a methodoleg

Yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn o dan bum agwedd ar ansawdd.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Chris Wallace
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
Ebost: ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Cyfryngau
Ffôn: 0300 025 8099

SFR 67/2019

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Gwelyau y GIG: Ebrill 2018 i Fawrth 2019** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.